Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 11 Mawrth 2014**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Meriel Singleton**
Clerc y Pwyllgor

safonau@cymru.gov.uk


## Agenda
Preifat

**Cyfarfod ffurfiol preifat**

### 1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

### 2 Papurau i'w nodi (Tudalennau 1 - 2)

### 3 Adolygu'r Cod Ymddygiad a Chanllawiau Cysylltiedig: Cofrestr o Fuddiannau Ariannol yr Aelodau – Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad (Tudalennau 3 - 5)
SOC(4)-01-14 Papur 1

- Gerard Elias QC, Y Comisiynydd Safonau

# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 22 Hydref 2013** |
| Amser: | **10:00 – 10:50** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_200000_22_10_2013&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mick Antoniw (Cadeirydd)**<br>**Llyr Gruffydd**<br>**Mark Isherwood**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Gerard Elias QC, Comisiynydd Safonau**<br>**Gareth Rogers, Pennaeth y Swyddfa Gyflwno** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

### 1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2 Adolygu'r Cod Ymddygiad a Chanllawiau Cysylltiedig: Cofrestr Buddiannau Ariannol yr Aelodau (09.35 – 10.50)

2.1 Trafododd aelodau'r Pwyllgor bapur y Comisiynydd Safonau a mynegi barn ar yr adrannau y tynnwyd sylw atynt er mwyn cynorthwyo'r ymarfer ymgynghori sydd i ddod.

2.1 Cytunodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol i gysylltu â'r Comisiynydd Safonau ynghylch cofrestru deuol mewn perthynas â nawdd ariannol.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am adroddiadau ar hynt Bil Lobio'r DU.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon